Hawdd ei Ddeall

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal i addysg a gofal plant?




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** yn Senedd Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal i addysg a gofal plant?**'.

Ebrill 2023

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Gall geiriau mewn **ysgrifennu glas beiddgar** fod yn anodd eu deall. Gallwch wirio beth mae'r geiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 11**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu'r **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:**
senedd.cymru/pwyllgorau/y-pwyllgor-plant-pobl-ifanc-ac-addysg/

**E-bost:** SeneddPlant@senedd.cymru

**Ffôn:** 0300 200 6565

Rydym yn croesawu galwadau ffôn drwy Relay UK.

Fe wnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** wneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddarllen hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** .......... **4**

**Edrych ar fynediad cyfartal** .......... **5**

Am beth rydyn ni eisiau clywed eich barn: .......... 6

**Sut fyddwn ni yn casglu gwybodaeth** .......... **8**


**Sut i gysylltu â ni** .......... **9**

**Geiriau Anodd** .......... **11**

# Cyflwyniad

Ni ydy'r **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** yn **Senedd Cymru**.

Rydyn ni yn edrych ar waith Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru.



Rydyn ni'n gwneud awgrymiadau am bethau rydyn ni eisiau iddyn nhw eu gwneud yn well.



Dydyn ni ddim yn gallu gwneud newidiadau, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru feddwl am ein syniadau.

# Edrych ar fynediad cyfartal



Rydyn ni yn edrych i weld os oes gan blant a phobl ifanc anabl a **niwroamrywiol fynediad** cyfartal i addysg a meithrinfa.



Os oes rhywun yn **niwrnoamrywiol** mae'n meddwl bod eu hymennydd yn defnyddio ac yn dysgu gwybodaeth yn wahanol. Mae hyn yn gallu meddwl awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), dyslecsia ac dyspracsia.



Mae **mynediad** yn golygu gallu cymryd rhan, dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio'n hawdd.



Fe fyddwn ni yn edrych ar feithrinfa ac ysgol i blant a phobl ifanc rhwng 0 ac 16 oed.

## Am beth rydyn ni eisiau clywed eich barn:



- Ydy plant a phobl ifanc anabl ac **niwroamrywiol** yn cael popeth maen nhw ei angen yn eu hysgol neu feithrinfa?



- Ydy plant a phobl ifanc anabl a **niwroamrywiol** yn cael eu gadael allan o unrhyw ran o'u haddysg?



- Ydy plant a phobl ifanc anabl a **niwroamrywiol** wedi cael eu trin yn annheg?



- Sut mae iechyd meddwl a llesiant planta phobl ifanc anabl a **niwroamrywiol**? Ydyn nhw'n gwneud yn dda yn yr ysgol neu'r feithrinfa?



- Pa bethau sy'n stopio ysgolion a meithrinfeydd rhag darparu addysg **gynhwysol** a **hygyrch**?

> Mae **cynhwysol** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan, ac mae gan bawb gyfle teg.



> Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu darganfod a defnyddio rhywbeth.



- Pa mor dda mae ysgolion neu feithrinfeydd yn siarad gyda phlant a phobl ifanc anabl a **niwroamrywiol** a'u teuluoedd? Ydyn nhw'n eu cynnwys mewn penderfyniadau a dewisiadau?



- Ydy plant a phobl ifanc anabl a **niwroamrywiol** a'u teuluoedd yn teimlo bod ganddyn nhw'r un dewisiadau ag eraill?



- Oes gwasanaethau ar gyfer gwahanol fathau o anabledd?

# Sut fyddwn ni yn casglu gwybodaeth



Fe fyddwn ni'n cynnal sesiynau i ofyn cwestiynau i bobl.




Fe fyddwn ni yn gwneud ymweliadau ar draws Cymru i gyfarfod pobl a chlywed am eu profiadau.



Rydyn ni'n casglu gwybodaeth mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, rydych chi'n gallu anfon gwybodaeth ysgrifenedig neu fideos inni drwy e-bost.



Cysylltwch gyda ni i siarad am y ffordd orau i chi gymryd rhan.



Rydyn ni eisiau bod yn **gynhwysol** ac yn **hygyrch**. Os ydyn ni wedi gwneud unrhyw beth i'ch stopi chi rhag cymryd rhan, rydyn ni eisiau gwybod er mwyn inni allu gwella.

# Sut i gysylltu â ni




Anfonwch eich syniadau inni erbyn **dydd Gwener 29 Medi 2023**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fe fydd beth rydych chi'n ei ddweud wrthyn ni yn ein helpu ni i fynd â'n syniadau at Lywodraeth Cymru am y newidiadau rydyn ni eisiau eu cael.




Diolch. Mae eich profiadau yn gallu helpu i wneud newidiadau ar draws Cymru. Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed gennych chi.

**Anfonwch eich sylwadau inni drwy:**



**E-bost:** SeneddPlant@senedd.cymru



**Phone:** 0300 200 6565

Rydym yn croesawu galwadau ffôn drwy Relay UK.



**Post:** Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Rydych chi'n gallu cysylltu â ni hefyd drwy:




**Gwefan:**
[senedd.cymru/pwyllgorau/y-pwyllgor-plant-pobl-ifanc-ac-addysg/](senedd.cymru/pwyllgorau/y-pwyllgor-plant-pobl-ifanc-ac-addysg/)

**Twitter:** [@SeneddChildren](@SeneddChildren)

# Geiriau Anodd

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan, ac mae gan bawb gyfle teg.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn gallu darganfod a defnyddio rhywbeth.

## Mynediad

Mae mynediad yn golygu gallu cymryd rhan, dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio'n hawdd.

## Niwrnoamrywiol

Os oes rhywun yn niwrnoamrywiol mae'n meddwl bod eu hymennydd yn defnyddio ac yn dysgu gwybodaeth yn wahanol. Mae hyn yn gallu meddwl awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), dyslecsia ac dyspracsia.